

Adroddiad 4 – Setliad Cyllidebol 2014/15

1. Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn i roi gwybod i aelodau am y setliad ariannol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2014/15, a'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar gyllidebau Ysgolion. Cyflwynir trosolwg o'r setliad cyllidebol ar gyfer Ynys Môn i roi mewn persbectif y setliad arfaethedig ar gyfer Ysgolion. Cynhwysir hefyd ddiweddariad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer 2014/15. Bydd hyn yn cwmpasu'r arian ychwanegol a glustnodir i'r grant hwn a'r cynnydd yn y raddfa yn ôl y disgybl.

Bydd yr adroddiad yn cwmpasu'r cynnig ar gyfer 2014/15 i leihau arian i ysgolion o £500k, ac mae'n ceisio cytundeb gan Aelodau'r Fforwm. Yn yr adroddiad, cyflwynir y lleihad fel 4 senario, a thorri ef i lawr i lefelau ysgolion unigol, yn dangos y toriad cynlluniedig ar gyfer pob ysgol. Gofynnir i aelodau gytuno i drafod y gwahanol senarios a gwneud argymhellion.

Bydd rhan derfynol yr adroddiad yn darparu diweddariad ar ddyraniadau ôl 16 ar gyfer 2014/15. Bydd hynny'n cynnwys y dyraniad cychwynnol ar gyfer Ynys Môn, a'r effaith a wynebhir gan y Sector Uwchradd.

2. Setliad Cyllidebol ar gyfer Ynys Môn

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddwyd y setliad cyllidebol drafft ar gyfer Ynys Môn, ac mae'r dyraniad ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:

	£ m
Cyllid Allanol Cyfansymiol (AEF / CAC)	£96.326
Y Dreth Gyngor	£30.266
Asesiad Gwario Safonol (SSA/AGS)	£126.592

Mae Ynys Môn yn wynebu lleihad o 2.3% yn eu SSA/AGS, o'i gymharu â lleihad cyfartalog Cymru o 1.4% yn llai. Yn nhermau lleihad cyllid, mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn wynebu toriad cyllidebol heb ei debyg o'r blaen o £7.7m ar gyfer 2014/15. Mae hyn yn trosi i doriad o £910k i'r Adran Dysgu Gydol Oes. Mae hyn yn 6.87% o leihad o'r gyllideb bresennol. Y lleihad canrannol cyfartalog a wynebhir gan y Gwasanaethau yw 7.6%. Pe gofynnid i ysgolion gyfarfod â'r un lefel o leihad, byddai hynny'n golygu y byddai angen dod o hyd i arbedion o £2.4m yn fras. Nid yw'r Cyngor yn cynnig cymhwyso'r toriad canrannol hwn i Ysgolion, ond maent yn cynllunio i gymhwyso £500k o leihad cyllidebol. Trafodir hyn ymhellach isod.

3. Grant Amddifadedd Disgyblion

Yn y setliad cyllidebol drafft, cyhoeddwyd y byddai amddiffyniad cynnydd o 0.9% ar gyfer Ysgolion. Mae wedi ei gadarnhau bod y codiad yn cynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion. Bydd graddfa'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynyddu o swm y disgybl o £450 yn 2013/14 i £918 yn 2014/15. Mae'r grant yn seiliedig ar hawl disgyblion (5 i 15 oed) i Brydau Ysgol Di-dâl. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif o ddisgyblion ar gyfer 2014/15, byddai hyn yn cynhyrchu amcangyfrif o ddyraniad o £1,330,182 ar gyfer 2014/15, o'i gymharu â £609,750 ar gyfer 2013/14. Mae hyn yn gynydd mewn ariannu o £720,432, sy'n cynrychioli 1.7% o gynydd.

4. Cynnigion Cyllidebol ar gyfer Ysgolion

Y cynnig ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2014/15 yw lleihau dyraniadau cyllidebol o £500k. Yn seiliedig ar y dyraniadau presennol, mae hyn yn cyfateb i leihad o 1.19% Cyflwynir hyn i aelodau yn Atodiad 1 ar ffurf 4 senario.

Ar gyfer pob un o'r senarios, mae'r gyllideb unigol yr ysgol ar gyfer 2013/14 wedi ei chynnwys, ynghyd â lefel bresennol yr arian wrth gefn a ddelir gan bob ysgol. Mae hyn i ganiatáu i Aelodau gymharu'r gyllideb bresennol, lefelau arian wrth gefn a ddelir a'r lleihad arfaethedig ar gyfer 2014/15.

Mae Senario 1 yn dangos y cynnig i leihau cyllidebau ysgolion o £500k, yn seiliedig ar raniad cyfartal o £250k yr un rhwng y Sector Cynradd a'r Sector Uwchradd. Mae hyn hefyd yn cymryd yn ganiataol na fydd unrhyw amddiffyniad i'r Sector Cynradd. Drwy hyn, mae'n golygu bod y gyllideb wedi ei defnyddio i gyfrifo'r toriad yn ôl ysgol, ac mae'n golygu nad yw ysgolion llai wedi eu hamddiffyn drwy ddefnyddio niferoedd disgyblion, a fyddai'n cynhyrchu toriad gostyngol ar gyfer ysgolion llai a thoriad mwy ar gyfer yr ysgolion mwy. Dangosir yr effaith ar gyfer ysgolion unigol.

Mae Senario 2 yn dangos y cynnig i leihau cyllidebau ysgolion o £500k, yn seiliedig ar £375k/£125k o raniad rhwng Sectorau Cynradd ac Uwchradd yn eu tro. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol na fydd unrhyw amddiffyniad ar gyfer yr ysgolion llai yn y Sector Cynradd.

Mae Senario 3 yn dangos y cynnig i leihau cyllidebau ysgolion o £500k, yn seiliedig ar raniad cyfartal o £250k yr un rhwng y Sector Cynradd a'r Sector Uwchradd. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd yn ganiataol amddiffyniad o niferoedd disgyblion ar gyfer Ysgolion Cynradd llai.

Mae Senario 4 yn cynnig lleihau cyllidebau ysgolion o £500k, yn seiliedig ar raniad o £375k/£125k rhwng y Sectorau Cynradd ac Uwchradd yn eu tro. Fodd bynnag,

mae hyn yn cymryd yn ganiataol amddiffyn niferoedd disgyblion ar gyfer Ysgolion Cynradd llai.

Mae angen i aelodau benderfynu ar y senario dewisol i gymhwyso lleihad y gyllideb o £500k ar gyfer 2014/15.

5. Ariannu Ôl 16

Yn dilyn adolygiad o Arolwg Cynllunio ac Ariannu Ôl 16 ym Mai 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau polisi sy'n effeithio ar ddyraniadau ariannu ar gyfer disgyblion Ôl 16. Mae'r egwyddorion allweddol ar gyfer newid i ariannu Ôl 16 fel a ganlyn:

- Syml – galluogi darparwyr Ôl 16 i wneud tybiaethau ar ariannu pellach ar gyfer pwrpasau cynllunio
- Pwrpasol – mae arian a glustnodwyd yn adlewyrchu costau dysgu i gefnogi cyflwyno effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau
- Cynhwysol – datblygwyd graddfeydd ariannu i hybu cynhwysiad a lledu cyfranogiad
- Cynaliadwy – yn gallu addasu i amgylchedd polisi newidiol
- Mwyhau – y defnydd o arian cyhoeddus: yn annog defnydd effeithlon o adnoddau

Mae hyn yn golygu y bydd y dyraniadau ariannu ar gyfer 2014/15, yn seiliedig ar godiadau ar gyfer amddifadedd, natur wasgarog a chyfrwng Cymraeg, ac ar Gyflwyno Cynlluniedig yn seiliedig ar Werthoedd Rhaglenni. Ar gyfer Ynys Môn, y dyraniad a amcangyfrifir ar gyfer 2014/15 yw £2,710,769, o'i gymharu â £3,011,966 ar gyfer 2013/14. Mae hyn yn lleihad o £301,197, sy'n cynrychioli toriad o 10%. Gostyngiad Ynys Môn yw'r uchaf yng Nghymru ac mae wedi ei gapio ar 10%. Mae hyn yn cymharu â'r lleihad cyfartalog o 5.5%. Ymgymerir â gwaith pellach i ddyrannu'r dyraniad gostyngol hwn i'r Sector Uwchradd.

6. Crynodeb

I grynhoi mae pwyntiau allweddol yr adroddiad fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Sir Môn yn wynebu gostyngiad cyllidebol o 2.3% ar gyfer 2014/15
- Gofyn am gytundeb i leihau cyllidebau Ysgolion o £500k, a defnyddio'r rhaniad dewisol
- Amcangyfrifir bod cynnydd yn y Grant Amddifadedd Disgyblion yn £720k
- Amcangyfrifir bod arian Ôl 16 i leihau o £301k

Report 4 - Budget Settlement 2014/15

7. Introduction

This report is to inform members of the financial settlement for Anglesey County Council for the financial year 2014/15, and the effect this will have on School budgets. An overview of the budget settlement for Anglesey will be presented to put into perspective the proposed settlement for Schools. An update of the Pupil Deprivation Grant for 2014/15 will also be included. This will cover the additional funding that is being allocated to this grant and the increase in the per pupil rate.

The report will cover the proposal for 2014/15 to reduce funding to schools by £500k, and is seeking agreement from the Forum Members. In the report, reduction will be presented as 4 scenarios, and is broken down to individual school level, showing the planned cut for each school. Members will be asked to agree to discuss the different scenarios and make recommendations.

The final part of the report will provide an update on Post 16 allocations for 2014/15. This will include the initial allocation for Anglesey, and the impact faced by the Secondary Sector.

8. Budget Settlement for Anglesey

In October 2013, the draft budget settlement for Anglesey was announced, and the allocation for 2014/15 is as follows:

	£ m
Aggregate External Finance (AEF)	£96.326
Council Tax	£30.266
Standard Spending Assessment (SSA)	£126.592

Anglesey is facing a 2.3% reduction in their SSA, compared to the Welsh average reduction of 1.4% reduction. In terms of funding reduction, this means the Council is facing an unprecedented budget cut of £7.7m for 2014/15. This translates to a cut of £910k for the Lifelong Learning Department. This is a 6.87% reduction on the current budget. The average percentage reduction faced by Services is 7.6%. If Schools were asked to meet the same level of reduction, this would mean savings of approximately £2.4m would need to be found. The Council is not proposing to apply this percentage cut to Schools, but plan to apply a £500k budget reduction. This will be discussed further below.

9. Pupil Deprivation Grant

In the draft budget settlement, it was announced that there would be a 0.9% increase protection for Schools. It has been confirmed that this uplift includes the Pupil Deprivation Grant. The Pupil Deprivation Grant rate will increase from the per pupil amount of £450 in 2013/14 to £918 in 2014/15. The grant is based on the eligibility of pupils (aged 5 to 15) for Free School Meals. Based on the estimated pupils for 2014/15, this would produce an estimate allocation of £1,330,182 for 2014/15, compared to £609,750 for 2013/14. This is an increase in funding of £720,432, which represents a 1.7% increase.

10. Budget Proposals for Schools

The proposal for school budgets in 2014/15 is to reduce budget allocations by £500k. Based on current allocations, this equates to a 1.19% reduction. This is presented to members in Appendix 1 in the form of 4 scenarios.

For each of the scenarios, the individual budget per school for 2013/14 has been included, along with the current level of reserves held by each school. This is to allow Members to compare the current budget, level of reserves held and the proposed reduction for 2014/15.

Scenario 1 shows the proposal to reduce school budgets by £500k, based on an equal split of £250k each between the Primary and Secondary Sector. This also assumes that there will be no protection for the Primary Sector. By this, it means that the budget has been used to calculate the cut per school, and means smaller schools are not protected by using pupil numbers, which would generate a reduced cut for smaller schools and a larger cut for the larger schools. The impact is shown for individual schools.

Scenario 2 shows the proposal to reduce school budgets by £500k, based on a £375k/£125k split between Primary and Secondary Sectors respectively. This assumes that there will be no protection for the smaller schools in the Primary Sector.

Scenario 3 shows the proposal to reduce school budgets by £500k, based on an equal split of £250k each between the Primary and Secondary Sector. However, this assumes protection of pupil numbers for smaller Primary Schools.

Scenario 4 shows the proposal to reduce school budgets by £500k, based on a £375k/£125k split between Primary and Secondary Sectors respectively. However, this assumes protection of pupil numbers for smaller Primary Schools.

Members need to decide on the preferred scenario to apply the budget reduction of £500k for 2014/15.

11. Post 16 Funding

Following the review of Post 16 Planning and Funding Review in May 2013, the Welsh Government has introduced policy changes which affect funding allocations for Post 16 pupils. The key principles for the change to Post 16 funding are as follows:

- Simple – to enable Post 16 providers to make assumptions on future funding for planning purposes
- Purposeful – allocated funding reflects the costs of learning to support effective delivery which focuses on outcomes
- Inclusive – funding rates developed to promote inclusion and widen participation
- Sustainable – able to adapt to a changing policy environment
- Maximise – the use of public funding: encourages the efficient use of resources

This means that the funding allocations for 2014/15, will be based on uplifts for deprivation, sparsity and Welsh medium, and on Planned Delivery based on Programme Values. For Anglesey, the estimated allocation for 2014/15 is £2,710,769, compared to £3,011,966 for 2013/14. This is a reduction of £301,197, representing a 10% cut. Anglesey's reduction is the highest in Wales and has been capped at 10%. This compares to the average 5.5% reduction. Further work is being undertaken to allocate this funding reduction to the Secondary Sector.

12. Summary

To summarise the key points of the report are as follows:

- Anglesey Council is facing a 2.3% budget reduction for 2014/15
- Request agreement to reduce Schools budgets by £500k, and the preferred split to be used
- Increase in the Pupil Deprivation Grant is estimated to be £720k
- Post 16 funding estimated to reduce by £301k